**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (‘y Cyngor’) yn cynnig y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus dilynol o dan Adrannau 59 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (‘y Ddeddf’).

1. Fe ddaw'r Gorchymyn i rym ar 18 Mehefin 2019 a bydd yn cael effaith am 3 blynedd wedi hynny, oni bai ei fod yn cael ei ymestyn drwy orchymyn pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â phob man agored cyhoeddus ledled y fwrdeistref ac a nodir ar y cynllun atodedig (“yr Ardal Gyfyngedig”). Dyma dir y mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn perthyn iddo a bydd yn cael ei ddiogelu trwy wneud y Gorchymyn Arfaethedig hwn.

3. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau a nodir yn Adran 59 (2) y Ddeddf wedi'udiwallu. Sef y cynhaliwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol yn yr Ardal Gyfyngedig. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai hynny yn yr ardal, ac mae'n debygol y bydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal o fewn yr ardal honno ac yn cael effaith o'r fath.

4. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod yr amodau a nodir yn Adran 59 (3) y Ddeddf wedi'u diwallu. Sef, bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau o natur, neu ei bod yn debygol o fod o natur gyson neu barhaus a bod y gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiad a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i fod o dan yr holl amgylchiadau yn gyfleus gwneud hyn er mwyn lleihau troseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

5. Gellir enwi'r Gorchymyn Arfaethedig fel y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cwmpasu pob man agored cyhoeddus o fewn y fwrdeistref.

**Trwy'r Gorchymyn Arfaethedig hwn**

6. Effaith y Gorchymyn hwn yw gosod yr amodau dilynol ar ddefnyddio'r tir:-

a) Bydd person(au) yn yr Ardal Gyfyngedig yn casglu ac yn gwaredu carthion cŵn sydd o dan eu rheolaeth trwy ei dynnu a rhoi'r baw ci mewn bag y dylid ei adael mewn bin sbwriel neu fynd ag ef adref

b) Rhaid i berson(au) yn yr Ardal Gyfyngedig sydd â chŵn o dan eu rheolaeth gario bagiau neu ddulliau addas eraill ar gyfer casglu baw cŵn

c) Pan ofynnir iddynt wneud hynny gan Swyddog Awdurdodedig, rhaid i berson(au) yn yr Ardal Gyfyngedig roi cŵn dan eu rheolaeth ar dennyn. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig nodi’r lleoliad a’r cyfnod a gwmpasir gan gyfarwyddyd a roddir o dan Baragraff 6 (C) y Gorchymyn hwn

7. Ni fydd y cyfyngiadau yn Erthygl 6 y Gorchymyn hwn yn gymwys i bobl anabl fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 lle mae'r person yn dioddef o anabledd a fyddai'n eu hatal rhag casglu baw eu cŵn.